**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mehefin 2020 |

## PWNC

Eitem 6:YSGOL LLANAELHAEARN

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i gadarnhau'n derfynol i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2-2- a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plennydd, Y Ffôr o 1af Medi 2020, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i Rybydd Statudol gan ei gyhoeddi i gau'r ysgol ar 5ed Mawrth 2020 gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar y 3 Ebrill 2020 ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. O ganlyniad mae'r Adran Addysg yn gofyn i'r Cabinet i gadarnhau yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Bu i'r Aelod Lleol roi ei farn yn y cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mehefin 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 7:EFFAITH COVID-19 AR GYLLIDEB 2020/21

---

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r bwlch posibl yng nghyllideb 2020/21 a chefnogi ymdrechion yr Arweinydd a swyddogion i sicrhau opsiynau ariannu addas gan Lywodraeth Cymru.

Oherwydd y colledion ariannol ym mlwyddyn gyntaf (2019/20) Byw'n Iach yn sgil Covid-19, a'r rhagdybiaeth y bydd colledion pellach yn parhau yn 2020/21 am yr un rheswm, fod y Cabinet yn cadarnhau

1. Ei fod yn fodlon darparu y gefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal Gwasanaethau Cwmni'n Byw'n Iach yn y man cyntaf hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.
2. Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Economi a Chymuned, ac yn unol â'r ddarpariaeth yn y Cytundeb gyda Chwmni Byw'n Iach (Atodlen 4), i ddarparu llythyr o sicrwydd i'r cwmni a chytuno ar amodau a chynnwys y gefnogaeth.
3. Fod y Cabinet yn derbyn adroddiad penodol ar y trefniadau fel rhan o adroddiadau adolygu cyllidebau y Cyngor

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I hysbysu'r Cabinet o effaith ariannol Covid-19 ar gyllideb 2020/21 y Cyngor, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholled sylweddol mewn incwm.

Yn ogystal oherwydd y golled ariannol yn sgil Covid-19 i gwmni Byw'n Iach fod y Cyngor yn cynnig cenfogaeth iddynt yn ystod y cyfnod yr argyfwng a thu hwnt.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

---

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mehefin 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 8:DATGANIAD TECHNOLEG RHANBARTHOL AR AGREGAU: DRAFFT AIL ADOLYGIAD

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technoleg Rhanbarthol ac i awdurdodi'r Pennaeth Adran Cynorthwyol i gyflwyno cadarnhad o'r gymeradwyaeth y Cabinet i Lywodraeth Cymru.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau MTAN 1(Agregau) yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer rhanbarthau Gogledd a De Cymru er mwyn darparu strategaeth ar gyfer cyflenwad agegau adeiladau ar gyfer y dyfodol.

Cymeradwywyd y dogfennau gwreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2008, ac mae angen eu hadolygu bob pum mlynedd yn unol ag anghenion MTAN 1. Cynhaliwyd a chymeradwywyd yr Adolygiad Cyntaf yn 2013/14 a chychwynnwyd yr ail adolygiad yn 2018. Mae angen cymeradwyaeth gan bob un o'r Cynghorau sy'n rhan o'r rhanbarth er mwyn caniatáu iddo gael ei gyhoeddi a'i ddefnyddio ar gyfer paratoi polisi agregau mwynau o fewn cynlluniau datblygu lloel ac adolygiadau neu baratoi canllawiau cynlluniau atodol fel sydd yn briodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Mehefin 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 9:STRWYTHUR YR ADRAN TAI

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd ariannu'r gost net ychwanegol o £150,500 drwy ddefnydd o gynnyrch treth y Premiwm Treth Cyngor ar dai gwag ac ail gartrefi, er mwyn gwireddu newidiadau i strwythur staffio'r Gwasanaeth Tai, fel amlygwyd ym mharagraffau 3.4 a 3.7 o'r adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 7 Mai 2019, yn dilyn adolygiad rheolaethol y Prif Weithredwr penderfynwyd creu Adran Tai ac Eiddo newydd er mwyn gallu ceisio cwrdd â dyhead y Cyngor i roi blaenoriaeth uwch i fynd i'r ymrafael â'r her sylweddol yn y maes Tai. Yn dilyn penodi Pennaeth i'r adran penderfynwyd cynnal adolygiad o'r strwythur staffio er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer wynebu'r her o gyflawni'r cynlluniau fydd eu hangen i wireddu eu strategaeth tai.

Roedd y gwaith o edych ar yr ail strwythuro wedi ei gwblhau i bob pwrpas cyn argyfwng Covid-19. Er bod yr adran ar hyn o bryd yn blaenoriaethu eu hymdrechion i gyflawni eu swyddogaethau yn ystod yr argyfwng, pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i baratoi ar gyfer ail afael yn ei blaenoriaethau arferol y maes. Yn ogystal, mae'r profiadau yn ystod yr argyfwng wedi cadarnhau'r angen i sicrhau fod trefniadau cadarn ar gyfer y cyfnod nesaf.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---